# Cofnodion y Bwrdd wedi'u cadarnhau

**Teitl y Cyfarfod:** Fforwm Rheoli Tir Cymru

**Lleoliad:** Adeilad Llywodraeth Cymru, Aberystwyth

**Dyddiad y Cyfarfod:** 16 Medi 2019

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson (Aelod o Fwrdd CNC a Chadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru)

Hedd Pugh (NFU Cymru)

Rachel Lewis-Davies (NFU Cymru)

Dennis Matheson (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant)

Marc Williams (CNC)

Geraint Davies (CNC)

Tim Kirk (Confor)

Sian Thomas (CFfI)

Bob Vaughan (Rheolwr Coedwigoedd a Ffermio Tir Cynaliadwy, CNC)

Geri Mills (Ysgrifenyddiaeth, CNC)

Huwel Manley (Rheolwr Gweithrediadau Tir ac Asedau, CNC)

Dominic Driver (Pennaeth Stiwardiaeth Tir, CNC)

Nichola Taylor (trwy Skype CNC)

Russell De’Ath (trwy Skype CNC)

Simon Bareham (trwy Skype CNC)

Sarah Hetherington (CNC)

**Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:** Dim

**Ysgrifenyddiaeth(au):**

Helen Haider (Cydgysylltydd Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru, CNC)

Marc Williams (Cydgysylltydd Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru, CNC)

**Ymddiheuriadau:**

Ruth Jenkins (Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol)

Ceri Davies (Cyfarwyddwr Gweithredol CNC ar gyfer Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu)

Martyn Evans (Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru, CNC)

Anthony Geddes (Confor)

Meinir Wigley (CNC)

Chris Blake

## Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd Zoe Henderson bawb i'r cyfarfod gan nodi'r ymddiheuriadau.

2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau i'w hystyried ar yr Agenda.

## Eitem 2 Cofnodion y cyfarfod diwethaf ac unrhyw faterion sy'n codi

3. Ni chafwyd unrhyw ddiwygiadau i gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 10 Mai 2019, a nodwyd bod y rhain bellach wedi cael eu gosod ar dudalen We Fforwm Rheoli Tir Cymru ar wefan CNC.

4. Adolygiad o'r Cofnod Gweithredu:

    - Chwef. PG01: Darparwyd diweddariad yn y cyfarfod. Dywedwyd bod y drafodaeth yn fyw ac yn parhau, gan gynnwys y cysylltiadau â'r Datganiadau Ardal. Nodwyd bod y cynrychiolydd lleol yn allweddol yn y gwaith o ddatblygu datganiadau ardal, gyda negeseuon yn cael eu codi ar lefel genedlaethol a'u cydlynu gan gynrychiolwyr lleol. Amlygodd Huwel Manley y gwaith a wnaed yn Sir Gaerfyrddin i lansio strategaeth wledig; gwybodaeth i'w rhannu â'r Grŵp.

    - Chwef. PG08: Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r broses o gysylltu'r Fforwm ynghyd yn cael ei thrafod yn ystod y cyfarfod.

    - Chwef. PG12: Diweddariad i'w ddarparu yn ystod y cyfarfod nesaf o'r Fforwm ym mis Rhagfyr.

- Chwef. PG18: Cadarnhaodd Bob Vaughan ei fod yn parhau i drafod â chyd-weithwyr yn adran Gwastraff CNC, ac y byddai diweddariad yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf o'r Fforwm ym mis Rhagfyr.

- Mai PG14: Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai digwyddiad Datganiadau Ardal Cenedlaethol yn cael ei gynnal ar 4 Hydref; cafwyd trafodaethau pellach yn ystod y cyfarfod.

- Mai PG22: Cadarnhaodd y Cadeirydd drafodaethau pellach yn yr eitem ar Greu Coetir ar yr Agenda.

## Eitem 3 Llywodraethu Fforwm Rheoli Tir Cymru

5. Trafododd y Fforwm y cais diweddar gan Barc Cenedlaethol Eryri i ymuno ag aelodaeth y Fforwm. Wrth ddod i gasgliad, penderfynodd y Fforwm y dylai'r Cadeirydd ymateb yn ysgrifenedig gan gynnig ystyried y berthynas â CNC yn hytrach nag ystyried aelodaeth.

   ***PG01: Y Cadeirydd i ysgrifennu at Barc Cenedlaethol Eryri a chynnig trefnu cyfarfod i drafod diben y Fforwm ac ystyried opsiynau ar gyfer cryfhau'r berthynas â CNC.***

## Eitem 4 Diweddariad CNC

6. Cadarnhaodd Huwel Manley fod y strwythur Sefydliadol newydd wedi cael ei gyflwyno ledled CNC ar 1 Gorffennaf. Roedd y Sefydliad wedi wynebu gostyngiad o 160 o staff yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, a oedd wedi llywio'r newid ar gyfer strwythur diwygiedig.

   Cadarnhaodd Huwel fod y penodiadau canlynol wedi'u gwneud:

   Pennaeth De-ddwyrain Cymru – Steve Morgan

   Pennaeth De-orllewin Cymru – Martyn P Evans

   Pennaeth Canolbarth y De – John Hogg

   Pennaeth Canolbarth Cymru – Martin Cox

   Pennaeth Gogledd-ddwyrain Cymru – Lyndsey Rawlinson

   Pennaeth Gorllewin Cymru – Sian Williams

   Pennaeth Datblygu, Cynllunio a Morol – Rhian Jardine

   O ran sgiliau coedwigaeth, cadarnhaodd Huwel a Bob fod angen adolygu sgiliau a chymwyseddau'r staff sy'n newydd i rolau coedwigaeth, gan roi ystyriaeth i raglen goedwigaeth raddedig.

   Cadarnhaodd Bob fod trosiant y staff mewn rolau yn parhau, gyda 20% o swyddi gwag yn bodoli yn ei dîm ei hun. Mae'r Sefydliad yn gweithio o fewn ei strwythurau newydd;

fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi cyrraedd eu capasiti. Nodwyd bod y Rhaglen Brexit wedi recriwtio adnodd ychwanegol.

***PGO2: Bob Vaughan i rannu'r siart sefydliadol diweddaraf ar gyfer y Sefydliad gan gynnwys y siart sefydliadol llawn ar gyfer y Tîm Tir Cynaliadwy.***

Cadarnhaodd Sarah Hetherington fod pedwar penodiad newydd wedi cael eu gwneud yn y tîm ar gyfer Brexit. Roedd y ffocws ar y tri senario posibl, sef dim cytundeb, perthynas agos neu aros yn yr UE. Cadarnhawyd fod CNC yn ymgysylltu mewn modd rhagweithiol â Llywodraeth Cymru ynghylch ei swyddogaethau rheoliadol a goblygiadau posibl Brexit.

Cadarnhaodd Huwel Manley fod y broses recriwtio ar waith ar gyfer Swyddogion Prosiectau Dyddiadur ychwanegol/newydd. Ar ôl cael eu penodi, bydd pob swyddog yn cael ei hyfforddi cyn cwblhau unrhyw ymweliadau â ffermydd.

Trafododd y Fforwm y llwybrau mynediad ar gyfer y cyhoedd wrth iddynt gysylltu â CNC, sydd, yn bennaf, trwy'r Ganolfan Gontractau; nododd yr NFU fod angen i system brysbennu fod ar waith er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu cysylltu â'r unigolion iawn o fewn CNC i ddarparu cefnogaeth a chymorth. Cadarnhaodd Sarah Hetherington fod hon yn ffrwd waith a nodwyd ac a oedd yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd.

7. **Diweddariad ar Bolisi:** Cadarnhaodd Bob Vaughan fod y ffocws ar hyn o bryd ar ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, Ffermio Cynaliadwy a'n Tir. Roedd briff gwybodaeth polisi allweddol wedi cael ei ddosbarthu er gwybodaeth i staff mewnol CNC ac wedi cael ei uwchgyfeirio at Fwrdd CNC. Mae CNC yn gweithio'n agos gyda LlC ar hyn o bryd, yn nodi'r pryderon ynghylch y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno, sef 30 Hydref, gyda Brexit ar 31 Hydref.

   Nodwyd hefyd fod gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu cyngor ar gyfer y newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau o fis Ionawr 2020 ymlaen.

   Nododd yr NFU hefyd bryderon ynghylch amseriad yr ymatebion i Ymgynghoriad LlC a Brexit, sydd hefyd yn effeithio ar amseriad bil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig.

   ***PG03: Sarah Hetherington i rannu sylwadau CNC ar Ymgynghoriad LlC, Ffermio Cynaliadwy a'n Tir, â'r Fforwm er gwybodaeth.***

8. **Amonia:** Rhoddodd Simon Bareham flas o'r gwaith datblygu ehangach sy'n mynd rhagddo, a chynigiodd gyflwyno prosiectau manylach i'r Is-grŵp Amaeth eu hystyried. Gofynnir i'r Is-grŵp Amaeth adolygu canllawiau diwygiedig a luniwyd yn wreiddiol yn 2017 i alluogi CNC i ystyried adborth a materion allweddol cyn cyflwyno canllawiau diwygiedig ar y We ym mis Ebrill 2020.

   ***PG04: Simon*** Bareham i gysylltu â Geri Mills er mwyn cyflwyno i'r Is-grŵp Amaeth.

   Amlygodd Huwel Manley yr angen i ddarparu eglurder ynghylch allyriadau amonia i'r gymdeithas ffermio; gallai'r canllawiau hyn effeithio ar opsiynau o ran arallgyfeirio o amgylch unedau dofednod. Cadarnhaodd Simon fod Llywodraeth Cymru yn arwain grŵp adolygu.

Nododd yr NFU fod ffermwyr yn gweithredu ar adeg anodd ac felly fod arnynt angen arweiniad i gefnogi opsiynau arallgyfeirio. Amlygodd fod ffermwyr am gael cyfleoedd ond bod arnynt angen sefydlogrwydd cyn buddsoddi, gan egluro'r angen am fframwaith integredig sy'n gynaliadwy ac yn gadarn.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r mater yn cael ei reoli trwy'r Is-grŵp Amaeth.

***PG05: Y Cadeirydd i drafod yr angen am fframwaith integredig ar gyfer ffermwyr mewn cyfarfod o'r Is-grŵp Amaeth.***

9. **Datganiadau Ardal:** Ymunodd Russell De’ath a Nichola Taylor â'r cyfarfod trwy Skype i ddarparu briff cyn y sesiwn ymgysylltu a drefnwyd ar gyfer dydd Gwener 4 Hydref yn Llanfair-ym-Muallt. Nod y gweithdy yw darparu eglurder o ran diben a strwythur y datganiadau ardal, darparu cyfleoedd i ymgysylltu, a chydgysylltu'r heriau a'r cyfleoedd a wynebir ledled y sector.

   Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd cynrychiolwyr rhanbarthol o'r sectorau rheoli tir yn cael gwahoddiad i ymuno â'r sesiwn.

   ***PG06: Gwahoddiad ffurfiol i gael ei estyn i'r Sector Rheoli Tir cyn gynted â phosibl – Russell De’Ath/Nichola Taylor.***

## Eitem 5 Rhaglen Creu Coetir CNC

10. Eglurodd Bob Vaughan fod nifer o raglenni creu coetir ar waith yn dilyn diddordeb brwd y Prif Weinidog, a hynny'n dilyn ymlaen o'r ymrwymiad a wnaed gan Elin Jones AC ychydig flynyddoedd yn ôl i blannu can mil hectar o goetir.

11. Nodwyd bod y cynllun creu coetir a gymeradwywyd gan Fwrdd CNC yn dechrau trwy ganolbwyntio ar y canlynol:

    - Plannu coetir newydd cydadferol i gymryd lle'r hyn a gollwyd o ganlyniad i'r rhaglenni creu ynni.
    - Mae CNC yn ystyried opsiynau i brynu rhagor o dir yn rhan o ystâd coetir Llywodraeth Cymru ar gyfer plannu.
    - Plant! Mae'r rhaglen yn parhau gydag oddeutu 4,000 o goed yn cael eu plannu yn fisol yng ngogledd a de Cymru.
    - Plannu Canmlwyddiant – plannu cymunedol mewn ardaloedd bach ledled Cymru.
    - Mae'r rhaglen creu coetir, Glastir, yn parhau gyda chyhoeddiad gan y Gweinidog yn y Sioe Frenhinol ym mis Gorffennaf ar gyfer arian ychwanegol i fynd i mewn i'r Cynllun.
    - Parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i greu cynlluniau plannu trefol.
    - Coedwig Genedlaethol ar gyfer Cymru – gwnaed datganiad gan y Gweinidog y mae Llywodraeth Cymru bellach yn gweithio arno i'w ddatblygu.

12. Rhoddodd Bob Vaughan ddiweddariad ar y trafodaethau â Chris Blake, Aelod o Fwrdd CNC, ynghylch y rhwystrau i'r gwaith o Greu Coetir; roedd y sesiwn wedi nodi rhwystrau ac wedi ystyried opsiynau i'w goresgyn. Gofynnodd Bob Vaughan am farn y Fforwm ar greu Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru i symud gwaith yn y maes hwn yn ei flaen.

13. Nododd y Fforwm bryderon a fynegwyd ynghylch mynd i'r afael â thargedau realistig ar gyfer plannu, yn ogystal â'r gost sy'n gysylltiedig â'r buddsoddiad hwn, gan gynnwys sicrhau caniatâd ac Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol. Ochr yn ochr â'r heriau hyn y mae'r rheolau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â thaliadau gwledig, sy'n dod i ben ar ôl deng mlynedd.

14. Nododd y Fforwm yr angen am gynllun galluogi y byddai nifer o ffermwyr yn barod i fynd ar ei drywydd, gan nodi pryderon ffermwyr tenant.

## Eitem 6 Ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir

15. Nododd Bob Vaughan y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru.

## Eitem 7 Diweddariad gan Confor/NFU/UAC/CFfI/TFA

16. Diweddariad gan Confor:

- Gorlwytho coed – mae CNC yn casglu gwybodaeth ac ystadegau er mwyn ystyried y mater ymhellach.
- Clefyd Coed – mae cynlluniau newydd ar waith i fynd i'r afael â *P. ramorum*, gyda Chymru ar hyn o bryd yn cael gwell llwyddiant na gweddill y Deyrnas Unedig.
- Clefyd Coed – Gwyfyn Ymdeithiwr y Derw. Er bod hwn fel arfer yn gyffredin yn Ne-ddwyrain Lloegr, mae achosion wedi cael eu darganfod 'nawr yng Ngogledd a De Cymru; credir iddo gael ei fewnforio ar goed ifanc.
- Clefyd Coed – mae Clefyd Coed Ynn yn broblem sylweddol ledled Cymru. Nododd y Fforwm fod pecyn cymorth coed ynn a ddarperir gan y Gymdeithas Goedwigaeth Frenhinol yn arbennig o ddefnyddiol.
- Hawliadau cloddio am fwynau mewn perthynas â hawliau mwynau neilltuedig; mae Confor 'nawr yn ymuno â Kirsty Lees, CNC, i baratoi ar gyfer yr achos llys sydd yn yr arfaeth.
- Dangosyddion coetir – Mae Llywodraeth Cymru yn drafftio dangosyddion coetir ar hyn o bryd.
- Credydau carbon – mwy a mwy yn ystyried hyn.
- Coetir ar gyfer Cymru – mae Llywodraeth Cymru yn trafod diwygiadau i'r polisi trwy banel cynghori y strategaeth.

***PG07: Darparu eglurder o ran y rheoliadau cwympo ar gyfer coed y mae Clefyd Coed Ynn yn effeithio arnynt.***

17. Diweddariad gan NFU:

    - Sioe deithiol o gyfarfodydd ar Ffermio Cynaliadwy a'n Tir; mynegwyd pryderon am amseriad yr ymgynghoriad a dyddiad cau Brexit, sef 31 Hydref.
    - Yn gweithio ar gyflwyno tystiolaeth i'r Gweinidog ar ansawdd dŵr mewn perthynas â'r Rheoliadau Dŵr newydd.
    - Lansiwyd gwobr amaethyddiaeth gynaliadwy yn ddiweddar, a gaeodd ar 30 Medi yng Nghynhadledd yr NFU.

18. Diweddariad gan fudiad y CFfI:

    - Mae'r Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol newydd ddod i ben, gyda phenodiad Cadeiryddion newydd.
    - Cyfarfod ar gyfer ein haelodau ar 9 Hydref yn gofyn i'r undebau ymuno â ni.
    - Bydd y gwaith yn dechrau'n fuan i sefydlu gweledigaethau CFfI ar gyfer y dyfodol gyda'r Cadeirydd newydd Lee Pritchard o Forgannwg.

19. Diweddariad gan Gymdeithas y Ffermwyr Tenant:

    - Yn parhau i wthio am ddiwygiadau i'r Ddeddf Tenantiaeth y mae angen eu cynnig trwy Ddeddf Amaethyddiaeth Cymru, sydd 'nawr wedi'i gohirio tan 2021. Y gobaith oedd ei chynnwys trwy gyflwyno gwelliant i ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig; fodd bynnag, mae hyn wedi'i ohirio tan ar ôl Brexit.
    - Cynllun Rheoli Maethynnau: Ni fydd tenantiaid yn gallu cydymffurfio o fewn eu cytundebau tenantiaeth presennol; mae cais wedi'i wneud i Lywodraeth Cymru naill ai am ohirio hyn neu am gael eu heithrio.

## Eitem 8 Diweddariadau gan y Fforymau

20. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod trafodaethau wedi cael eu cynnal â Steve Ormerod, Aelod o Fwrdd CNC, sy'n cadeirio'r Fforwm Pysgodfeydd a'r Fforwm Dŵr, ynghylch rhannu gwybodaeth ledled y Fforwm. Cytunwyd y byddai cofnodion a gadarnhawyd yn cael eu rhannu ledled y Fforwm.

21. Estynnodd y Fforwm wahoddiad i Steve Ormerod ddod i gyfarfod o'r Fforwm pan fyddai'n cynnull y tro nesaf.

## Eitem 9 Dyddiadau Arfaethedig i'r Dyddiaduron ar gyfer 2020 (Geri Mills)

22. Dyddiadau arfaethedig ar gyfer cyfarfodydd 2020:

- Dydd Llun, 10 Chwefror 2020

- Dydd Llun, 11 Mai 2020
- Dydd Mercher, 9 Medi 2020
- Dydd Llun, 7 Rhagfyr 2020

23. Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Gwener, 13 Rhagfyr 2019

24. Nododd y Fforwm y dyddiadau arfaethedig ar gyfer 2020, a chroesawodd apwyntiadau calendr Outlook i gadw dyddiadau mewn dyddiaduron.

## Eitem 10 Unrhyw Fater Arall

25. Daeth aelodau'r Fforwm i'r casgliad fod y cyfarfod wedi bod yn un cadarnhaol a bod y drafodaeth wedi bod yn adeiladol.

## Diwedd y Cyfarfod